

EISTEDDFOD YR URDD CAERDYDD A'R FRO 2019

Rhif 92 – Parti Cerdd Dant Bl 9 ac iau (Adran) (dim mwy na 20 mewn ifer)
geiriau – Detholiad penodol o Cymru 30 – 3 Lloegr – Myrddin ap Dafydd



Cainc: Sosban Fach, Mair Selway (1212)
Ceinciau 99, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru

Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod

CYMRU 30 – 3 LLOEGR

(Stadiwm y Mileniwm Caerdydd 2013)

Roedd 'Hen Wlad fy Nhadau' 'n atseinio'n llawn stêm
A'r to bron â chodi cyn cic gynta'r gêm,
Y gwrol ryfelwyr; pob calon yn ddrwm
A'r dreigiau'n yr awyr yn goch ym mhob cwm.
Tîm Lloegr islaw, fel eu crysau yn wyn,
Yn methu dygymod â chroeso fel hyn;

Roedd rhai wedi honni mai nhw piau'r pawns,
Y gêm, Coron Driphlyg a chlamp o Gamp Lawn.
Eu blaenwyr mor wych a'u canolwyr mor gry' –
Roedd dathliad yn siŵr gyda'r ceisiau yn llw,
Roedd angen i Gymru eu trechu o saith
I fod yn bencampwyr – dim peryg, ychwaith.

Ni pheidiodd y dyrfa â chwyddo ei llais,
Ni pheidiodd y llithriad yng nghynllun y Sais,
Pob rhuthr a loriwyd gan gewri'n tîm ni,
Pob cic o droed Halfpenny drosodd am dri.
Ym mhob gwedd o'r gêm roedd Cymry yn ben:
Naw – Tri hanner amser – roedd bron yn Amen!

Ond yna ail hanner na welwyd mo'i fath,
Y bêl yn chwyrliô hanner can llath,
Roedd hen Wlad fy Nhadau yn dangos ei dawn,
Roedd coch ar y cwpan ar ddiwedd y pawns
Ar gwynion a gredai'r enillent mor braf
A gawsai'r gweir fwyaf erioed ar lan Taf

Gyda chydnabyddiaeth Myrddin ap Dafydd